

Ysgol Feithrin Pontypŵl

**mudiad
meithrin**
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar
Welsh early years specialists



Mae Helen Greenwood yn egluro'r weledigaeth ar gyfer Ysgol Feithrin Pontypŵl.

Rydym yn Gylch Meithrin nas gynhelir wrth wraidd y gymuned. Mae staff, plant a theuluoedd Ysgol Feithrin Pontypŵl oll yn gweithio'n agos gyda'n gilydd i sicrhau bod gennym ni weledigaeth glir a chyfannol ar gyfer y Cylch.

Anelwn i ddarparu awyrgylch diogel, hapus, gofalgarg ac ysgogol i'n holl blant. Rydym yn sicrhau ein bod yn ymateb i ddiddordebau'r plant, a'u bod nhw'n datblygu eu sgiliau ac yn cyrraedd eu potensial llawn. Rydym yn cefnogi'r plant i ddod yn 'ddysgwyr uchelgeisiol a galluog'; 'unigolion iach, hyderus'; 'dinasyddion egwyddorol, gwybodus' ac 'unigolion mentrus a chreadigol', yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru newydd a'r cwricwlwm i leoliadau meithrin nas gynhelir a ariannir.

Mae gan Ysgol Feithrin Pontypŵl dau ofod amlbwrpas, a'n gweledigaeth yw sicrhau bod y

plant yn medru treulio cymaint o amser ag sy'n bosib yn yr awyr agored.

Y tu mewn mae gennym ni neuadd fawr agored a rhennir i ardaloedd chwarae a dysgu i sicrhau digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu chwilfrydedd a'u dychymyg, a hefyd i wneud ffrindiau a theimlo fel eu bod nhw'n rhan o gymuned ein meithrinfa.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi buddsoddi llawer o amser ac egni i ddatblygu'r gofod allanol i fod yn le sy'n cynnig cyfleoedd chwarae i'r plant, ynghyd â bod yn ofod sy'n cynnig lle iddyn nhw ddatblygu'n gorfforol, defnyddio eu dychymyg, dysgu am fyd natur, ac am blannu a thyfu.

Rydym yn treulio cryn dipyn o amser yn ystyried sut mae gwella amgylcheddau dysgu ein lleoliad. Ar ôl fynychu hyfforddiant 'Gofodau sy'n Hwyluso Cyfathrebu' gan Elizabeth Jarman, deuthum i'r sylweddoliad nad oedd gennym ni lawer o lefydd lle gall plant fynd i fod ar ben eu hunain, neu mewn grwpiau bychain.

Fe weithion ni ar hyn drwy ddatblygu'r gofodau pwysig hynny tu allan a thu mewn i'r lleoliad. Rydym wedi ceisio





sicrhau bod Ysgol Feithrin Pontypŵl yn cynnig gofodau a chyfleoedd sy'n caniatáu i blant fod yn frochus neu'n synfyfyriol, i archwilio ac i siarad, ond hefyd i fod yn dawel a bod ar ben eu hunain, pe dymunan nhw fod felly.

Ar hyn o bryd, am resymau diogelwch, mae rhieni yn gollwng eu plant wrth giât y lleoliad, lle mae aelod o staff yn cwrdd â nhw ac yn cynnig croeso. Mae nifer fawr o blanhigion lliwgar ger y fynedfa, ac addurnwyd y ffens gyda gwaith y plant. Mae gennym ni hysbysfwrdd a gasibo sy'n cynnig lloches i'r plant a'r rhieni os yw'r tywydd yn wlyb. Gobeithiem y cawn ni wahodd rhieni yn ôl i'r Cylch yn fuan, ond nes daw'r amser



hynny, rydym yn gobeithio bod y fynedfa yn groesawgar ac yn ddeniadol. Rydym yn falch iawn o'n gofod awyr agored.

Mae gennym ni wal ddringo gyda grisiau, a phlattform sy'n arwain at lithren. Mae'r plattform braidd yn uchel, a gall hynny peri pryder i rai o'r plant, ond mae oedolion gwastad wrth law i gynnig cymorth a chefnogaeth, ac yn aml byddent yn eistedd ar ben y plattform ac yn siarad â'r plant. Pan mae'r plant yn gwibio o gwmpas ar y beiciau, sgwteri a theganau reidio eraill, gall eu cyflymder peri pryder i rai o'r plant sy'n poeni y caent eu taro gan y beicwyr. Er mwyn osgoi hyn, rydym yn siarad â'r plant ac yn gosod rheolau syml ar gyfer chwarae corfforol. Rydym yn annog y plant i gymryd risg, ond rydym wrth law o hyd er mwyn cefnogi a llongyfarch y plant.





Mae gennym ni ardal waith coed sydd â nifer fawr o adnoddau go iawn ac ystod eang o offer a mathau o bren. Pete Moorhouse a'i weledigaeth ar waith coed yn y blynyddoedd cynnar oedd ein hysbrydoliaeth ar gyfer creu a datblygu'r ardal hon.

Mynychodd pob un o'r pedwar aelod staff cyrsiau hyfforddiant drwy'r Gwasanaeth Cyflawniad Addysg ac Academi Mudiad Meithrin. Mae gan y plant fynediad at yr ardal boblogaidd hon bob dydd. Mae aelod staff gwastad wrth law i gynorthwyo'r plant i wireddu eu creadigaethau dychmygus, ac i ddewis yr offer cywir. Rydym wedi creu dau ofod allanol gyda llefydd i un neu ddau o blant eistedd a myfrio. Mae'r ardaloedd hynny wedi eu gosod ar wahân i'r gweithgareddau ac adnoddau eraill. Rydym hefyd yn gosod cadeiriau a chlustogau mewn corneli'r ardd fel bod y plant yn medru ymlacio a myfrio mewn rhywle tawel a diogel.

Mae gennym ni ddigon o lefydd i eistedd sydd o'r maint cywir i blant, a rheini ar gael y tu mewn a'r tu allan; mae hyn yn sicrhau ein bod ni wastad ar



yr un lefel a'r plant. Gall y plant symud y celfi o gwmpas i fwynhau golygfa newydd, a gall staff eistedd a disgwyl am wahoddiad i ymuno â'r chwarae.

Yr haf diwethaf bu'n rhaid i ni dorri coeden yn ein gardd am resymau iechyd a diogelwch. Cyn torri'r goeden roedd y plant wrth eu boddau yn chwarae ger y boncyff, a oedd wedi ei ddatblygu'n ardal chwarae – weithiau roedd yn ardd i'r tylwyth teg, ac ar adegau eraill roedd yn jyngl. Ar ôl torri'r goeden wnaethon ni greu platfform uwchben ein llithren, ond mae'r plant yn gwneud llai o ddefnydd o'r ardal hon rŵan. Rydym wedi buddsoddi mewn clustogau a phlancedi i'r awyr agored, er mwyn gwneud y gofod yn fwy croesawgar, a bwriadwn godi canopi uwchben y boncyff sy'n weddill o'r goeden. Gobeithiem y bydd yr awyrgylch clyd newydd yn annog plant i eistedd yna a thrafod, gyda ni a chyda'r plant eraill, yr hyn a hoffan nhw weld yn cael ei ddatblygu yma.

Yn y gorffennol, cyn y ddamcaniaeth bod gormod o liwiau llachar yn gorsymbylu plant, wnaethon ni brynu byrddau a chadeiriau mewn lliwiau llachar, ac roedd gennym ni lawer o offer ac adnoddau lliwgar. Rŵan, mae ein waliau wedi'u paentio'n lliw hufen, a thros y ddwy flynedd diwethaf rydym wedi ymdrechu'n galed i gyfnewid tegannau plastic lliwgar ag adnoddau a phethau naturiol, ac mae'r rhan fwyaf o'n celfi allanol yn bren naturiol, plaen.

Gwaith y plant sy'n dod a lliw i'r lleoliad - rydym yn arddangos eu gwaith gyda balchder ar waliau'r Cylch.





Yng nghornel cartref y plant, gall y plant gosod y bwrdd â chwpanau, soseri a phlatiau crochenwaith, a defnyddio cytleri go iawn. Mae'r corneli chwarae rôl a byd bach yn newid yn rheolaidd i adlewyrchu diddordebau'r plant.

Rydym yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddewis pa adnoddau hoffan nhw eu gweld yn y lleoliad.

Mae yna nifer o ddrymiau yn yr ardal gerddoriaeth, ac yn amlwg mae'r rhain yn medru bod yn swmlyd! Dydyn ni ddim yn gadael y rhain allan yn barhaol, ac rydyn ni'n gofyn i'r plant osgoi curo'r drymiau am gyfnodau hir o amser; yn hytrach, rydym yn eu hannog i arbrofi gyda lefelau sain wahanol, ac i roi cynnig ar gyfuniadau gwahanol o offerynnau cerddorol.

Mae'r plant yn defnyddio'r ardal dawel yn aml, gan eu bod nhw'n medru eistedd mewn gofod tawel er mwyn ymlacio. Mae yna ddigonedd o glustogau, blancedi a golau meddal. Maen nhw'n medru ymgilio yna i fod ar ben eu hunain, neu eistedd a gwylio'r plant eraill.

Y llynedd wnaethon ni ddatblygu rhagor o ardaloedd bach, caeedig a chyfforddus lle gall



y plant dreulio amser ar eu pen eu hunain neu gyda ffrind.

Rydym yn ffodus i gael neuadd fawr agored gyda phedwar ffenest fawr uchel ar y naill ochr, ac mae hyn yn llenwi'r ystafell â golau dydd. Rydym yn gwneud defnydd o oleuadau eraill - golau tylwyth teg yn yr ardaloedd chware rôl a'r ardal dawel, a'r gofodau caeedig, er mwyn creu awyrgylch deniadol. Mae'r plant yn hoff iawn o dortshis, a'r Nadolig diwethaf cawson nhw amser braf iawn yn creu llusernau ar gyfer gorymdaith drwy'r parc, a gwasanaeth carolau ger safle'r seindorf.

Hoffem feddwl ein bod ni'n cynnig yr un cyfleoedd dysgu i'r plant yn yr awyr agored a dan do. Rydym yn ymweld â'n parc lleol yn wythnosol, ac yn treulio diwrnodau cyfan yn ein gardd. Mae gan bob plentyn ddilledyn bob-tywydd a phâr o wellies i sicrhau y gallant fynd tu allan ym mhob tywydd.

Credwn ein bod ni'n cynnig ystod eang o weithgareddau a chyfleoedd chwarae sy'n ddatblygiadol priodol i bob un o'n plant, fel y gallan nhw ddilyn eu diddordebau drwy'r adeg.

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, wrth ddatblygu ac addasu'n ardaloedd chwarae allanol rydym wedi ymdrechu i greu gofodau lle gall y plant arsylwi, ymlacio neu wneud rhywbeth o'u dewis. Nifer o weithiau rydym wedi trafod sut y gallwn ni newid yr ardaloedd o fewn y gofod awyr agored.



Wnaethon ni ofyn i'r plant ystyried beth hoffan nhw ei newid neu ychwanegu i bob un o'r ardaloedd. Penderfynasom symud ein cegin fwd a'r ardal adeiladu fel eu bod nhw drws nesaf i'w gilydd. Wedyn, roedd yn bosib i ni greu gofod agored o blaen ein tŷ bach twt i'r plant gael eistedd a siarad ac arsylwi.

Roedd pen pellaf yr ardd yn ardal 'farw' a doedden ni ddim yn gwneud y gorau o'i photensial. Ar ôl cryn drafod, penderfynodd y plant osod lloches fach dan y coed, a bwrdd a meinciau i'r plant gael eistedd a thynnu llun, datrys problemau... neu unrhyw beth arall hoffan nhw ei wneud!

Mae gennym ni bagoda pren newydd, platform ar y clawdd uwchben ein llithren, a sied a thŷ gwydr newydd. Mae'r tŷ gwydr wedi cynnig cyfleoedd newydd i ni ddatblygu'n garddio. Mae'r plant am dyfu pwmpenni, ac rydym wedi trafod beth arall allwn ni dyfu i'w fwyta. Y llynedd wnaethon ni werthu tybiau o fefus ein hunain i rieni wrth y giât. Eleni hoffwn ni ddatblygu hwn ymhellach drwy dyfu a gwerthu tomatos a llysiau salad eraill yn ein siop fach.

Mae'r plant wrth eu boddau â'r ardal tu allan. Mae'r syniad o dyfu ffrwythau a llysiau nhw eu hunain yn eu cyffroi a'i symbylu. Maent yn hoff iawn o eistedd ac arsylwi ar newid y tymhorau, yr adar a'r coed.

Mae'r ymateb gan y rhieni hefyd yn gadarnhaol iawn. Mae ein gweithgareddau codi arian wedi'n cynorthwyo i ddatblygu ein hardal allanol, ac rydym hefyd wedi elwa o dderbyn grant cynladwyedd gan awdurdod lleol Torfaen. Rydym wedi trefnu sesiynau ar y penwythnos i alluogi rhieni i fod yn rhan o'r gwaith ac i helpu gyda'r garddio, paentio ac addurno, adeiladu'r bocsys tyfu a gosod y ffens.

Fel Cylch Meithrin yn y gymuned, mae'n bwysig i ni fod rhieni'n ymwneud â'r Cylch, ac roedd eu cefnogaeth yn un o'r prif resymau y wnaethon ni symud ymlaen â'n cynlluniau gyda chymaint o hyder. Rydym yn falch iawn o'r ffaith roedd rhai o'n rhieni eu hunain yn gyn-aelodau'r Cylch yn y 90au. Gan eu bod nhw wedi dechrau ar eu taith drwy addysg gyfrwng

Cymraeg yma yn ein Cylch Meithrin ni, aethon nhw ymlaen i astudio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, ac maen nhw'n gwbl ddwyieithog o ganlyniad. Mae'r rhieni hynny nŵan wedi dewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant. Rydym yn annog ac yn cefnogi ein rhieni i ddefnyddio cymaint o'r Gymraeg a fedran nhw adref gyda'u plant. Mae Ysgol Feithrin Pontypŵl wedi ei gwreiddio'n ddwfn yn y gymuned, a wnawn ni barhau i weithio'n ddiflino fel ein bod ni'n medru parhau i gynnig awyrgylch diogel, hapus, gofalgac ac ysgogol i'n holl blant a'u teuluoedd.

